

WJEC AS/A2 Religious Studies Level 3



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn mynd i'r afael â chipolwg eang ond craff i astudiaethau crefyddol ledled y byd

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Ydych yn chwilfrydig am ddiwylliannau eraill
- ... Ydych yn gweithio'n galed ac yn gallu cymell eich hun
- ... Oes gennych ddiddordeb mewn athroniaeth crefydd

Beth fyddaf yn ei wneud?

Lefel UG

Byddwch yn astudio 2 fodiwl:



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae Bwdhaeth yn cynnwys unedau ar ffigurau crefyddol a thestunau sanctaidd, credoau a chysyniadau canolog, ffordd o fyw ac arferion Bwdhaidd.

Mae cyflwyniad i grefydd a moeseg ac athroniaeth crefydd yn cynnwys unedau ar feddwl moesol, megis moeseg rhinwedd ac egoistiaeth foesol; damcaniaeth cyfraith naturiol Aquina, moeseg sefyllfaoedd, defnyddiolaeth; dadleuon ynglyn â bodolaeth Duw, y broblem o ddrwg a dioddef a phrofiad crefyddol.

Lefel U

Byddwch yn astudio 3 modiwl:

Mae Bwdhaeth yn cynnwys unedau ar ffigurau a thestunau crefyddol, datblygiadau hanesyddol a chymdeithasol sylweddol ym meddyliau crefyddol ac arferion crefyddol sy'n siapiro hunaniaeth grefyddol.

Mae crefydd a moeseg yn cynnwys unedau ar feddwl moesol, moeseg ddeontolegol, penderfyniaeth ac ewyllys rydd.

Mae athroniaeth crefydd yn cynnwys unedau ar heriau credoau crefyddol, profiad crefyddol ac iaith grefyddol.

Cewch eich asesu drwy (UG):

Bwdhaidd: Un arholiad yn para 1 awr 15 munud (15% o'r cymhwyster cyfan);

Cyflwyniad i grefydd a moeseg ac athroniaeth crefydd: Un arholiad yn para 1 awr 45 munud (25% o'r cymhwyster cyfan);

(U):

Un arholiad yn para 1 awr 30 munud ym mhob un o'r tri modiwl:

Mae Bwdhaeth, Moeseg ac Athroniaeth Crefydd i gyd yn cynrychioli 20% yr un o'r cymhwyster cyfan (UG = 40% ac U = 60%).

Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Astudiaethau Crefyddol Lefel UG

Astudiaethau Crefyddol Lefel U

Gweithgareddau sgiliau

[Saesneg a Mathemateg](#)

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn cael mynediad ar y cwrs, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, Mathemateg/Rhifedd Mathemateg ac Astudiaethau Crefyddol.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Gyda chymhwyster mewn astudiaethau crefyddol, cewch fynd ymlaen i addysg uwch neu ddod o hyd i gyflogaeth mewn ystod eang o feysydd, yn cynnwys addysgu, bancio, marchnata, gweinyddu, rheoli, gwaith cymdeithasol, nyrsio, y gyfraith a'r heddlu.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi wneud cyfraniadau ariannol at gostau teithio eich ymweliadau addysgol.

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

